YSGOL PENRHYN-COCH

Yn ddiweddar derbyniodd yr ysgol rodd o siop gan Mr. a Mrs. Ieuan Jenkins, 3 Glanstewi. Mr. Jenkins ei hun sy'n saer coed a wnaeth y siop ac mae o bren cadarn a chyda nifer o silffoedd i arddangos yr holl nwyddau a fydd ar werth ynddi. 'Rydym fel ysgol yn wir ddiolchgar i Mr. a Mrs. Jenkins am eu cared-igrwydd.

Yng nghyfarfodydd yr Urdd y mis hwn rhoddwyd y pwyslais ar ddysgu dawnsio gwerin. Cafwyd hwyl yn iawn gyda'r gwaith. Mae'r plant erbyn hyn yn edrych ymlaen i'r parti Nadolig ac ymweliad Sion Corn.

Ymwelodd Cwmni Theatr y "Northern and Scottish" a ni un prynhawn a chafwyd perfformiad gwych ganddynt o'r ddrama "Scatty The Scarecrow". Cafodd rhai o'r plant hefyd y cyfle o gymryd rhan a chael hwyl arbennig wrth wneud hynny. Yr oedd eu gweld mewn gwalltau hirion amryliw yn ychwanegu at yr hwyl. Yn ddiamau dyma un o'r cyflwyniadau gorau a mwyaf bywiog ers rhai blynyddoedd.

Bu myfyriwr o Goleg y Brifysgol gennym am wythnos a da oedd gweld ei fod yn mwynhau ei hunan yma. Bydd yn dychwelyd eto'n y flwyddyn newydd.